

IDWAL FOEL (bu farw 942), brenin Gwynedd

Enw: Idwal Foel
Dyddiad marw: 942
Plentyn: Meurig ab Idwal Foel
Plentyn: Ieufaf ap Idwal Foel
Plentyn: Iago ap Idwal Foel
Rhiant: Anarawd ap Rhodri Mawr
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: brenin Gwynedd
Maes gweithgaredd: Gwleidyddiaeth a Mudiadau Gwleidyddol; Teuluoedd Brenhinol a Bonheddig
Awdur: Thomas Jones Pierce

mab [Anarawd ap Rhodri Fawr](#). Dechreuodd deyrnasu yng Ngwynedd yn 916 ac wedi peth gwrthsefyll cydnabu benarglwyddiaeth teyrnas Wessex. Collodd ei fywyd mewn cyrch aflwyddiannus yn erbyn y Saeson yn 942, alltudiwyd ei feibion, a daeth yr awdurdod i ddwyllaw ei gefnder, [Hywel Dda](#). Er i ddau o'i feibion, sef [Iago](#) ac [Ieufaf](#), gael dychwelyd yng nghwrs amser, trwy fab iau, [Meurig](#), y trosglwyddwyd ei waed ef i brif linach deyrnasol Gwynedd y canol oesoedd.

Awdur

Yr Athro Thomas Jones Pierce, (1905 - 1964)

Ffynonellau

J. E. Lloyd, *A History of Wales from the Earliest Times to the Edwardian Conquest* (London 1911), Cyf. I

J. E. Lloyd, *A History of Wales from the Earliest Times to the Edwardian Conquest* (London 1911), Cyf. II

Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: [Idwal Foel](#)

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: [Q2707095](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchfeyrdiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

